Animal & Plant Health Agency

Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Amcangyfrif poblogaethau gwiddon *Varroa*

Chwefror 2022

Yn aml, ni fydd gwenynwyr yn sylwi ar blâu Varroa nes bod y pla yn un difrifol. Dylech fonitro am Varroa o leiaf bedair gwaith bob tymor: ar ddechrau'r gwanwyn, ar ôl llif mêl y gwanwyn, ar adeg cynaeafu mêl ac ar ddiwedd yr hydref. Mae gwybod faint o widdon sy'n bresennol mewn nythfa yn hollbwysig er mwyn i chi wybod pryd i gymryd camau priodol.

Mae'r daflen hon yn trafod tri dull a ddefnyddir yn gyffredin i gyfrifo poblogaethau Varroa. Mae dau yn rhoi asesiad gweddol gywir, ac amcan cyflym yw'r trydydd. Rhaid i chi gofio nad yw'r 'amcan cyflym' yn asesiad cywir.

Gollyngiad Gwiddon Naturiol

Mae'r system yn gywir yn y gaeaf a'r haf ond, yn ystod mis Mawrth, mis Ebrill, mis Medi a mis Hydref, mae'r canlyniadau yn llai cywir. Ni ddylai unrhyw driniaethau na threfniadau rheoli fod ar waith yn ystod y broses o fonitro lefelau poblogaeth Varroa.

1. Gan ddefnyddio llawr rhwyllau agored, gorchuddiwch eich mewnosodiad monitro ag olew llysiau neu Vaseline fel na all y gwiddon sy'n cwympo ddychwelyd i'r nythfa ac fel eu bod yn glynu'n sownd yn y mewnosodiad yn hytrach na chael eu chwythu i ffwrdd pan fyddwch yn tynnu'r hambwrdd allan.
2. Yn ystod yr haf, dylid casglu gweddillion am o leiaf saith diwrnod.
3. Yn ystod y gaeaf, dylid casglu gweddillion am gyfnod hwy.
4. Cyfrifwch gyfanswm y gwiddon a gasglwyd a rhannwch y ffigur hwn â nifer y diwrnodau a dreuliwyd yn cymryd y sampl er mwyn rhoi ffigur gollyngiad gwiddon dyddiol i chi. Ar ôl cyfrif y gollyngiad gwiddon, gallwch gwblhau'r broses gan ddefnyddio'r gyfrifiannell Varroa hawdd ei defnyddio sydd ar gael am ddim ar BeeBase – cliciwch ar y ddolen ar waelod y dudalen hon. Gellir gwneud cyfrifiad llai cywir drwy ddilyn y cam canlynol:
5. Lluoswch y ffigur gollyngiad gwiddon dyddiol ag un o'r canlynol (gan fod hyn yn rhoi cyfrif am faint o fag wedi'i selio a allai fod yn y cwch gwenyn ac felly faint o widdon sydd ar y gwenyn llawndwf): -
    - Yn y gaeaf, h.y. rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror, x400
    - Yn yr haf, h.y. rhwng mis Mai a mis Awst, x30

- mis Mawrth, mis Ebrill, mis Medi a mis Hydref x100 (Cyfnodau bras yn unig yw'r rhain)

DS Mae'n haws edrych ar weddillion mewn cwch gwenyn a chyfrif y gwiddon, a fydd i'w gweld yn amlwg fel arfer. Cofnodwch y nifer a glanhewch y mewnosodiad cyn ei roi yn ôl o dan y llawr. Cyfrifwch gyfartaledd dros saith diwrnod.

Tynnu Capiau Mag Gwenyn Gormes

1. Dewiswch ardal o fag gwenyn gormes wedi'i selio ar ffurf ddatblygedig, h.y. ffurf â llygaid porffor.
2. Rhowch fforch tynnu capiau mêl o dan y capiau a chodwch y chwilerod allan. Efallai y gwelwch fod troi'r fforch yn ei gwneud hi'n haws tynnu'r capiau.
3. Bydd y gwiddon sy'n bresennol i'w gweld yn amlwg ar y chwilerod. Cyfrifwch nifer y chwilerod sydd â gwiddon arnynt (a), a nifer y chwilerod a samplwyd (b).
4. Cyfrifwch nifer y celloedd gwenyn gormes seliedig sy'n bresennol yn y nythfa. Os byddwch yn defnyddio'r gyfrifiannell ar BeeBase, dim ond amcangyfrif o'r mag gwenyn gormes sy'n bresennol, er enghraifft 2.5% (Isel), 5% (Canolig) neu 10% (Uchel) y bydd ei angen arnoch. Gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell Varroa hawdd ei defnyddio sydd ar gael am ddim ar BeeBase i wneud y gwaith cyfrif hwn – cliciwch ar y ddolen ar waelod y dudalen hon. Fel arall, gallwch gyfrifo drwy ddilyn y camau canlynol:
5. Rhannwch nifer y chwilerod gwenyn gormes sydd â phla â nifer y chwilerod gwenyn gormes a samplwyd, h.y. rhannu (a) â (b).
6. Lluoswch y canlyniad â nifer y celloedd gwenyn gormes seliedig yn y nythfa a lluoswch y ffigur hwnnw â 10 i roi poblogaeth y gwiddon yn y mag cyfan.

D.S. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, anelwch am nifer mor agos â phosibl at 100 o chwilerod gwenyn gormes, gan y bydd sampl fwy yn rhoi canlyniad mwy cywir.

Amcan Cyflym

Fforchiwch sampl o chwilerod gwenyn gormes allan yn yr un modd â dull 2. Os oes gwiddon ar un o bob 50 o chwilerod, yna mae'r pla yn un ysgafn ac ni fydd angen ei reoli, fwy na thebyg. Os oes gwiddon ar un o bob 20 o chwilerod, mae'r pla yn un canolig, ac os oes gwiddon ar un o bob 10, mae'r pla yn un trwm. Os oes pla ar 15% o'r mag gwenyn gormes, mae hynny'n arwydd bod y nythfa mewn perygl o chwalu.

Os oes llawer o gychod gwenyn gennych, edrychwch ar sampl gynrychioliadol. Yn aml, bydd gan nythfeydd cryf a'r rhai sydd â chynnyrch uchel blâu trwm.

Dulliau eraill

Defnyddir samplu gwenyn llawndwf i asesu poblogaethau gwiddon Varroa hefyd. Gall hyn fod yn dra-chywir ond mae angen asesiad cywir o gyfanswm poblogaeth y gwenyn mewn nythfa. O ganlyniad i hynny, nid yw'r dull hwn wedi cael ei gynnwys ar y daflen hon.

Cyfrifiannell Varroa yr Uned Wenyn Genedlaethol

Yn ogystal â bod yn ffynhonnell o lawer mwy o wybodaeth am reoli Varroa yn eich cychod gwenyn, mae BeeBase yn cynnig cyfrifiannell hawdd ei defnyddio am ddim y gallwch ei defnyddio drwy glicio ar y ddolen hon https://nationalbeeunit.com/public/BeeDiseases/varroaCalculator.cfm

National Bee Unit
APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York YO41 1LZ
Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk
Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Chwefror 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk